

Bwletin Awdurdod S4C - Chwefror 2001

Cydymdeimlad

Nododd yr Aelodau â thristwch marwolaeth Mr Glyn Jones, Arweinydd Côr Meibion Pendyrus.

Anrhydeddau

Adroddodd y Cadeirydd ei bod wedi ysgrifennu at Mr Alwyn Humphreys ar ran yr Awdurdod i'w longyfarch ar gael MBE am ei gyfraniad i Gôr Meibion Treforys.

Cymru'n Creu

Cyfeiriwyd at yr adroddiad hwn gan y Cynulliad, a ddechreuwyd yn wreiddiol gan y Pwyllgor Diwylliant o dan gadeiryddiaeth Cynog Dafis, AC, ac oedd yn cael ei gymryd yn ei flaen gan y Gweinidog dros Ddiwylliant, Jenny Randerson, AC. Soniwyd taw'r prif syniad oedd i ddod â chyrrff yng Nghymru at ei gilydd er mwyn sicrhau bod cynnyrch a gwasanaethau Cymreig yn cael ei hybu i'r eithaf pan fyddai digwyddiadau mawr, megis yr FA Cup, yn dod i Gymru. Cytunwyd y dylai S4C dderbyn unrhyw wahoddiad i ymuno â'r fath grwp.

Apêl Elusennol S4C

Adroddodd y Cadeirydd bod y Panel Cyfweld wedi penderfynu ar yr elusen fyddai S4C yn ei chefnogi yn 2001. Yr elusen a ddewiswyd oedd y British Heart Foundation. Y ddwy elusen fyddai'n elwa o gael fideo wedi'i baratoi ar eu cyfer oedd Home Start a Cymorth i Ferched Blaenau Ffestiniog.

Cyfarfod gyda'r Democratiaid Rhyddfrydol

Nodwyd bod cyfarfod da iawn wedi'i gynnal gyda nifer o aelodau o'r Blaid. Yn eu plith oedd Richard Livsey, AS, Llywydd y Blaid yng Nghymru, a Mike German, AC, Dirprwy Prif Weinidog a Gweinidog dros Ddatblygiad Economaidd y Cynulliad.

Pwyllgor Dethol Materion Cymreig

Adroddwyd ar ymddangosiad y Cadeirydd, y Prif Weithredwr a Rheolwr Gyfarwyddwr S4C Masnachol gerbron y Pwyllgor i roi tystiolaeth i'w ymchwiliad i mewn i 'Cymru yn y Byd'. Cyfeiriwyd hefyd at y cyflwyniad a roddwyd i'r Pwyllgor y noson gynt.

Penodi Aelodau i Awdurdod S4C

Tynnodd y Cadeirydd sylw at y ffaith fod y dyddiad cau ar gyfer ceisiadau ar gyfer dau Aelod newydd o'r Awdurdod wedi mynd heibio. Roedd y Cynulliad yn rhoi trefniadau mewn llaw i gyrraedd at restr fer. Er hynny, roedd wedi dod i'r amlwg y byddai hi'n o leiaf dau os nad tri mis arall cyn i'r Aelodau a benodwyd ymuno â'r Awdurdod. Gwelwyd hyn i fod yn anffodus gan y byddai'r misoedd nesaf yn rhai pwysig i'r Awdurdod yn sgil y Papur Gwyn ar Gyfathrebu. Felly, roedd y Cadeirydd wedi gofyn i Peter Davies a Janice Rowlands os byddent yn fodlon gwasanaethu ar yr Awdurdod am dri mis arall. Roeddynt wedi bod mor garedig â chytuno i hyn. Er hynny, roedd hwn yn fater i'r Ysgrifennydd Gwladol dros Ddiwylliant, Cyfryngau a Chwaraeon benderfynu arno ac yr oedd y Cadeirydd yn aros am ateb i lythyr roedd newydd ddanfon ato yn gofyn iddo gytuno i'r cynnig.

Adroddiad y Cyfarwyddwr Rhaglenni

Derbyniwyd adroddiad y Cyfarwyddwr Rhaglenni. Canolbwyntiodd trafodaeth yr Aelodau ar y ddogfen Anghenion Rhaglenni oedd i'w gyhoeddi o fewn wythnos. Cytunwyd bod y ddogfen yn dderbyniol a'i fod yn adlewyrchu ysbryd yr hyn yr oedd yr Awdurdod yn edrych amdano. Roedd y cyflwyniad i'r ddogfen yn un arbennig o werthfawr wrth iddo roi arweiniad i'r cwmnïau annibynnol ar amcanion S4C parthed ei gwasanaeth rhaglenni.

Etholiad Cyffredinol: Darllediadau Gwleidyddol

Adroddodd yr Ysgrifennydd ar y sefyllfa parthed darllediadau gwleidyddol ar gyfer yr Etholiad Cyffredinol nesaf. Gofynnwyd i'r Aelodau gytuno ar ddyraniad o ddarllediadau etholiadol ar gyfer y prif bleidiau gwleidyddol yn ystod ymgyrch yr Etholiad Cyffredinol. Yn ogystal gofynnwyd iddynt gytuno ar un elfen o Ganllawiau Rhaglenni S4C yn ymwneud â'r driniaeth y dylid rhoi i'r gwahanol bleidiau wrth ymwneud ag etholaethau penodol yn ystod Etholiad Cyffredinol.

Adroddiad y Grwp Cydymffurfiaeth

Cyflwynodd yr Ysgrifennydd adroddiad y Grwp Cydymffurfiaeth a wnaeth ddeillio o'r cyfarfod a gynhaliwyd ar 12 Ionawr 2001. Yn benodol trafodwyd yr isod.

Llafur Cariad – Nodwyd sylwadau'r Grwp parthed yr iaith anwedus a ddefnyddiwyd yn y gyfres *Llafur Cariad*. Cefnogodd yr Aelodau y sylwadau a wnaethpwyd parthed pwysigrwydd rhoi rhybuddion cyn darllediadau gyda achosion o'r fath, hyd yn oed os oeddynt yn digwydd ar ôl y 'watershed'.

Yn Erbyn y Wal –

- (a) Yr oedd y gyfres hon wedi ei dwyn at sylw'r Awdurdod gan y Grwp Cydymffurfiaeth er mwyn i'r Aelodau ystyried pryderon ynglyn â phreifatrwydd a chaniatâd i ddarlledu. Roedd gan y Grwp amheuan fod cyfweld pobl ifanc yn ddirybudd pan oeddynt yn amlwg wedi yfed yn weddol helaeth ar faterion sensitif a darlledu atebion na fyddent, efallai, o'u hystyried yn sobr am eu gwneud yn gyhoeddus, yn amharu ar breifatrwydd lle nad oedd budd cyhoeddus i gyfiawnhau hyn. Yn sgil y pryderon hyn, felly, fe gyfeiriwyd y mater ymlaen at yr Awdurdod ar gyfer ei sylw.
- (b) **Cytunwyd:** Ar ôl gwylio clipiau perthnasol o'r gyfres a thrafod yn fanwl cyfraniadau'r bobl ifanc -
- (i) bod y cyfweiliadau jyst o fewn y ffiniau o'r hyn oedd yn dderbyniol.
 - (ii) er nad oedd gofyn i'r Awdurdod ystyried y mater o chwaeth, y dylid gwneud y sylw y byddai wedi bod yn fwy addas i ddarlledu'r gyfres yn hwyrach yn y noson (nodwyd y byddai'r polisi newydd o ddechrau darlledu yn y slot 10.30 p.m. yn lleddfu'r sefyllfa hon)
 - (iii) i gadarnhau nad oedd yna, ar hyn o bryd, ofyniad gorfodol ar gwmnïau cynhyrchu i sicrhau caniatâd ysgrifenedig i ddefnyddio'r fath gyfweiliadau

Rhaglenni Materion Cyfoes S4C

Yn codi o'r ystyriaeth o faterion cydymffurfiaeth, cyfeiriwyd at ddyfarniad y Broadcasting Standards Commission ar *Taro Naw* oedd yn cael ei gyhoeddi yn ei Fwletin Rhif 39 a'r gwyn oedd ar y gweill gan Gyngor Sir Gaerfyrddin (cyfeiriwyd at hyn ym Mwletin yr Awdurdod ym mis Ionawr). Holwyd os, o ganlyniad, roedd yna le i bryderu ynglyn â'r safon a'r dulliau newyddiadurool a ddefnyddiwyd mewn rhaglenni materion cyfoes megis *Taro Naw* ac *Y Byd ar Bedwar*. Mynegwyd sawl gwahanol farn oedd yn ymwneud â'r mater hwn ond derbyniwyd bod angen ystod ehangach o dystiolaeth i brofi unrhyw awgrym nad oedd y safon yr hyn ddylai fod.

Rhestr Diddordebau Aelodau'r Awdurdod

Ystyriodd yr Aelodau restr wedi'i lunio ar sail y diddordebau y gwnaethant ddatgan yn Ionawr 2001. Cytunwyd bod y rhestr yn gyflawn ac yn gywir ac, yn ôl y drefn a sefydlwyd y flwyddyn gynt, y dylid felly ei gyhoeddi ar safle we S4C, gyda chopïau ar gael i'r cyhoedd eu gweld yn swyddfeydd y Sianel yng Nghaerdydd a Chaernarfon.

Cyflwyniad ar Waith yr Adran Gyllid

Rhoddodd y Cyfarwyddwr Cyllid gyflwyniad i'r Awdurdod ar waith ei hadran. Cyfeiriodd at y ddwy is-adran, sef, Cyllid Corfforaethol a Cyllid Rhaglenni, ac esboniodd gyda pha adrannau a chyrrff eraill yr oedd yr is-adrannau hyn yn delio â nhw. Aethpwyd ymlaen i roi braslun o'r gwaith a wneir. Roedd hyn yn cynnwys paratoi a monitro cyllidebau, cynnal cyfarfodydd cyllid gyda'r holl adrannau, prosesu nifer mawr iawn o anfonebau, darparu adroddiadau bob yn ail fis ar gyllid rhaglenni, a gweinyddu cyflogau. Esboniwyd hefyd y gwaith cyllid yn ymwneud â chwmnïau gyda chytundebau i gynhyrchu rhaglenni i S4C, y gwaith o weinyddu'r holl daliadau sydd yn ddyledus i gyfranwyr mewn rhaglenni sy'n cael eu hail ddarlledu, a'r strwythur mewn lle er mwyn delio â'r gwaith yn gysylltiedig â hyn. Wrth ddod â'r cyflwyniad i ben cyfeiriwyd at y targedau a'r materion o bwys i'r dyfodol, gan gynnwys, er enghraifft, gwerth gorau ac annog defnydd o feddalwedd/dulliau electronig o gyfleu gwybodaeth. Diolchodd yr Aelodau i'r Cyfarwyddwr Cyllid am gyflwyniad oedd yn ddiddorol a llawn gwybodaeth. Mynegwyd gwerthfawrogiad o'r holl waith manwl yr oedd yr Adran Gyllid yn ei gyflawni.

Materion Eraill

Yn ogystal, trafodwyd neu nodwyd y materion canlynol:

- Adroddiad Ariannol
- Adroddiad y Prif Weithredwr – Materion er gwybodaeth
- Cynllun Corfforaethol 2001-03
- Adroddiad Cwynion
- Cofnodion cyfarfod y Grwp Cydymffurfiaeth a gynhaliwyd ar 12 Ionawr 2001.
- Adroddiad y Wifren Gwylwyr
- Adroddiad Ymchwil
- Adroddiad Rheolwr Gyfarwyddwr S4C Masnachol